

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Abernant
Ysgol Abernant, 7fed o Chwefror 2019

Yn bresennol: Mr Ian Williams, Mrs Katrina Gabillia, Mr Chris Bish, Mr Eirian Howells

1. Sylwadau'r Cadeirydd: Mi wnaeth y Cadeirydd groesawu pawb i'r cyfarfod

2. Ymddiheuriadau am absenoldeb: Cynghorydd Jean Lewis, Mr Paul Moggridge

3. Cadarnhau cofnodion mis Ionawr :

Cynnig: Mrs Katrina Gabillia

Eilio: Mr Chris Bish

4. Materion yn codi o'r cofnodion:

(a) Derbyniwyd e-bost wrth adran gyfreithiol o gyngor Sir Gâr ynghylch problemau parhaus ar stad Lôn y Felin, yn hysbysu ei bod wedi cael cyngor ymhellach ynghlyn a'r mater. Maent yn y broses o ystyried yr cyngor ac yn gwneud ymholiadau pellach fel y cyngorwyd gan y cwnsel ac yn ei drafod gan yr adran gyfarwyddedig. Pwysleisiwyd gan y Cyngorwyr os na fydd diweddariad wedi dod i law wrth y Cyngor Sir, mi fydd y clerc yn trefnu cyfarfod gyda chynrychiolwyr o adran tai a chyfreithiol Cyngor Sir Gâr.

(b) Dim diweddariad ynghlyn a choed sy'n gordyfu ym mhentref Talog. Mi fydd y Cadeirydd yn danfon llythyr swyddogol at D.Tony Williams yn yr adran briffyrdd. Clerc i ddilyn fyny.

(c) Dderbyniodd y Clerc fap o holl lwybrau cyhoeddus yn y gymuned.

(ch) Nid yw'r clerc wedi derbyn unrhyw ymateb ynghlyn a rhoi bin sbwriel ym mhentref Talog.

(d) Nid yw'r blwch ffôn ym mhentref Talog yn gweithio. Clerc i gysylltu gyda BT.

dd) Dim diweddariad ynghylch lleoli arwydd 'Ildiwch Ffordd' ar gyffordd yn Abernant. Clerc i ddilyn fyny gyda'r Cyngor Sir. Derbyniwyd adroddiad bod arwydd wedi cwmpo i'r ddaer ger fferm Lan Shedfa.

(e) Hysbysffwrdd - Clerc i ofyn am bris gan y Saer am dau ddrws newydd a hefyd am hysbysffwrdd UPVC.

(f) Mae yna nifer o dyllau yn bodoli yn y gymuned. Clerc i ofyn i'r adran briffyrdd i'w llenwi.

(ff) Mae'r broblem gyda cyflymder traffig drwy bentref Talog wedi cael ei adrodd i'r Cyngor Sir. Clerc i ddilyn fynd am diweddariad.

(g) Penderfynwyd i ofyn i 'Farmyard Nurseries' am bris am archebu planhigyn 'Whitebeam a Silverbirch i'w blannu ar dir Ysgol Abernant er cof am dau gyn aelod o staff yr ysgol.

5. Gohebiaeth:

Derbyniwyd e-bost gan brifathrawes Ysgol Abernant a oedd yn rhannu ei phryderon bod y brif ffordd mewn i Ysgol Abernant heb gael ei graenau yn ystod tywydd gaeafol. Mae e-bost wedi cael ei ddanfoni i'r adran briffyrdd am gopi o bolisi ynghylch graeanu heolydd gwledig.

6. Diffibriliwr

Mae tri allan o bump o diffibriliwr nawr yn eu lle. Cytunwyd i leoli un o'r diffibriliwr ar ffens bren ger Capel Bwlchnewydd. Penderfynwyd hefyd i ofyn i Gapel Cendy am ganiatiad i leoli diffibriliwr tu allan i'r Capel.

7. I'w drafod

Dim materion i'w trafod

8. Taliadau:

Neuadd Talog - £30

HMRC - £62.40

Terfynwyd y Cyfarfod am 8.45yh. Cfarfod nesaf i'w gynnal ar nos Iau, 7fed o Fawrth yn Ysgol Abernant am 7.30yh.